National Park Authority
Pembrokeshire Coast
Arfordir Sir Benfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol

**CWESTIYNAU CYFFREDIN: Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) Gwersylla a Charafannau ar Safleoedd 28 Diwrnod ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

### Beth yw Cyfarwyddyd Erthygl 4(1)?

Offeryn cynllunio yw Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i ymateb i anghenion penodol eu hardaloedd drwy ddileu hawliau datblygu penodol a ganiateir. Mae'n tynnu'n ôl y caniatâd cynllunio y mae'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn ei roi ar gyfer dosbarth o ddatblygiad. Gall cyfarwyddyd o'r fath gael ei wneud gan Awdurdod Cynllunio Lleol neu gan Weinidogion Cymru dan erthygl 4 y gorchymyn hwnnw. Nid yw cadarnhad o Gyfarwyddyd Erthygl 4(1) yn atal cyhoeddi caniatâd cynllunio ond yn hytrach yn ei gwneud hi'n ofynnol ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer pob cynnig o fewn categori penodol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gefnogi datblygiad sy'n gyson â strategaeth a pholisïau'r cynllun datblygu sy'n cynnwys Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Chynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Arfordir Penfro

### Beth mae'r newid hwn yn ei olygu?

Nid oes angen caniatâd ar gyfer mathau penodol o ddatblygu, gan eu bod wedi derbyn 'hawliau datblygu a ganiateir'. Mae defnyddio tir am hyd at 28 diwrnod ar gyfer gwersylla, carafannau a chartrefi symudol yn elwa o hawl datblygu a ganiateir. Mae cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) yn golygu y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer rhai mathau o ddatblygiadau a byddai angen cais cynllunio. Bydd y Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) yn dileu'r hawl datblygu a ganiateir i ddefnyddio tir ar gyfer gwersylla, carafannau a/neu gartrefi symudol am hyd at 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr. Byddai hyn yn golygu y bydd angen i chi gyflwyno cais cynllunio i Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae'r mesur hwn yn sicrhau bod eu lleoliad a gweithrediad yn cael eu rheoli'n ofalus i ddiogelu amgylchedd unigryw'r Parc Cenedlaethol.

### Beth yw'r Rheol 28 Diwrnod?

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'r 'rheol 28 diwrnod' yn caniatáu i dirfeddiannwr ddefnyddio tir heb orfod cael caniatâd cynllunio ffurfiol am 28 diwrnod mewn blwyddyn galendr ar gyfer maes gwersylla heb unrhyw garafannau. Gellir defnyddio blociau o dir dros 5 acer ar gyfer hyd at 3 carafán, neu gartrefi symudol neu gerbydau gwersylla am hyd at 2 noson. Gellir defnyddio blociau o unrhyw faint i osod un garafán am hyd at ddwy noson.

Mae'r rheolau yn Lloegr yn wahanol lle mae'n ofynnol i dirfeddianwyr sy'n sefydlu safleoedd yn Lloegr hysbysu'r awdurdod cynllunio cyn agor, nid oes angen hyn yng Nghymru. Mae hawliau datblygu a ganiateir yn Lloegr hefyd yn caniatáu i safleoedd weithredu am 60 diwrnod, ond yng Nghymru mae'r hawliau datblygu a ganiateir yn caniatáu i safleoedd weithredu am hyd at 28 diwrnod.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma: https://www.pembrokeshirecoast.wales/wp-content/uploads/2021/09/28_day_leaflet_english.pdf

**Pam bod Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) yn cael ei gyflwyno ar gyfer safleoedd 28 diwrnod yn y Parc Cenedlaethol?**

Mae nifer y meysydd gwersylla yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol, gyda llawer o safleoedd 28 diwrnod yn gweithredu y tu hwnt i'r cyfnod datblygu a ganiateir. Mae hyn wedi arwain at effeithiau sylweddol ar dirwedd, gyda lleiniau yn cael eu gosod ac, mewn rhai achosion, ennill tystysgrifau defnydd cyfreithlon mewn lleoliadau lle byddai caniatâd cynllunio fel arfer yn cael ei wrthod. Mae monitro'r safleoedd hyn yn parhau i herio adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod.

O ganlyniad, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Mai a mis Medi 2024 ar y cynnig i ddiddymu hawliau datblygu a ganiatawyd ar gyfer safleoedd gwersylla a charafanio 28 diwrnod drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4(1). Cymeradwyodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro'r penderfyniad i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) ardal eang yng nghyfarfod yr Awdurdod ddydd Mercher 11 Rhagfyr 2024.Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus o 10 Ionawr i 21 Chwefror 2025 ar gyfarwyddyd Erthygl 4(1). Cadarnhaodd Awdurdod Parc Cenedlaethol gyfarwyddyd Erthygl 4(1) ar 7 Mai 2025. Bydd Erthygl 4(1) yn dod i rym ddydd Mercher 1 Ionawr 2026.

**Deleted:** a fydd

Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i reoli effeithiau safleoedd gwersylla a charafannau dros dro ar yr amgylchedd, cymunedau lleol a seilwaith yn well. Ei nod yw sicrhau bod y safleoedd hyn yn gweithredu'n gynaliadwy a ddim yn effeithio'n negyddol ar y dirwedd naturiol neu gyfleusterau lleol drwy fonitro'n well

**Beth yw manteision y rheoliad newydd hwn?**

- Bydd yn caniatáu rheolaeth fwy cynhwysfawr i asesu effeithiau carafannau a gwersylla yn y Parc Cenedlaethol gan alluogi'r Awdurdod i sicrhau bod cynigion yn gydnaws â strategaeth Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a dibenion y Parciau Cenedlaethol.
- Byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) ar gyfer yr ardal gyfan yn sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy yn cael ei hyrwyddo, bod y dirwedd naturiol yn cael ei gwarchod rhag safleoedd 'dros dro', a bydd yn sicrhau bod gweithgareddau gwersylla a charafanio yn cael eu rheoli'n gyfrifol. Bydd hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithio gwell rhwng tirfeddianwyr, awdurdodau lleol, a'r gymuned lle mae amwynder trigolion y Parc Cenedlaethol yn cael ei warchod.
- Ail-ffocysu adnoddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol (a rhai sefydliadau partner) o fod yn adweithiol i safleoedd carafannau a gwersylla anawdurdodedig i feithrin perthynas â thirfeddianwyr, rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned leol.

**Os ydw i eisoes yn gweithredu maes gwersylla a charafannau, a fydd y Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) yn effeithio arnaf?**

Os yw eich maes gwersylla a charafanio eisoes yn gweithredu gyda chaniatâd cynllunio presennol ar waith, mae hyn hefyd yn cynnwys y safleoedd hynny sy'n gweithredu o dan Dystysgrif Cyfreithlondeb, yna ni fydd unrhyw newid. Ni fydd y safleoedd hynny sy'n

gweithredu o dan dystysgrif eithrio a roddwyd trwy sefydliadau wedi'u heithrio yn cael eu heffeithio gan Gyfarwyddyd Erthygl 4(1) chwaith. Bydd yn ofynnol i bob safle arall gael caniatâd cynllunio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**Pa fath o wersylla a charafanio sy'n cael eu heffeithio?**

Mae'r Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) yn effeithio gweithgareddau gwersylla a charafannau dros dro sy'n dod dan y Rheol 28 Diwrnod yn bennaf, byddai hyn yn cynnwys:

- Pebyll a threlar pebyll
- Llety glampio heb sail gadarn
- Strwythurau symudadwy ar olwynion neu lithrynnau mewn cysylltiad â'r defnydd o'r safle, yn cynnwys toiledau cludadwy.
- Cerbydau a ddefnyddir i gludo i'r safle yn unig (ceir, faniau, a threlars)
- Tir dros bum acer - gellir gosod tair carafán ar un tro. Yr arhosiad hiraf ar gyfer pob carafán yw dwy noson.
- Tir dan bum acer - gellir gosod un garafán yn unig ar un tro. Yr arhosiad hiraf ar gyfer pob carafán yw dwy noson.

**A oes unrhyw eithriadau?**

Oes, efallai y bydd mathau arbennig o weithgareddau gwersylla a charafanio yn parhau i gae eu heithrio o Gyfarwyddyd Erthygl 4(1), a'r angen dilynol am ganiatâd cynllunio. Er enghraifft, gall sefydliadau sy'n bodloni gofynion penodol wneud cais i Lywodraeth Cymru i gael tystysgrifau eithrio dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 a Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936.

I fod yn gymwys, rhaid i sefydliadau gael:

• Cyfansoddiad ffurfiol;
• Nodau yn cynnwys annog neu hyrwyddo gweithgaredd hamdden; a
• Yr adnoddau i drefnu a goruchwylio gweithgareddau.

Gall y sefydliadau hyn gymeradwy safleoedd, gan ganiatáu iddynt gynnal gweithgareddau wersylla a charafanio o dan eu baner. Mae angen y ddwy dystysgrif os yw pebyll a charafannau yn cael eu defnyddio ar y safle ar yr un pryd.

**Os ydw i'n gweithredu maes gwersylla a charafannau, ond y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, a yw'r ymgynghoriad yn effeithio arna'i?**

Os ydych chi'n gweithredu safle y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, ni fydd y cynigion mewn perthynas â Chyfarwyddyd Erthygl 4(1) yn effeithio arnoch chi. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu gweithredu maes gwersylla neu garafannau dros dro, fe'ch cynghorir i gysylltu â Chyngor Sir Penfro lle mae'n gweithredu fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol: https://www.pembrokeshire.gov.uk/

**A fydd Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) ar safleoedd gwersylla yn atal fy nheulu rhag gwersylla yn fy ngardd, neu aros mewn carafán ar y dreif am noson?**

Na fydd – mae'r cynigion ar gyfer Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) ar gyfer safleoedd gwersylla wedi'u hanelu at dir nad oes ganddo ddefnydd preswyl sydd eisoes yn bodoli. Ni fydd pobl sy'n gwersylla neu'n aros mewn carafán o fewn cwrtil preswyl yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn.

**Sut all tirfeddianwyr wneud cais am ganiatâd cynllunio?**

Gall tirfeddianwyr wneud cais am ganiatâd cynllunio llawn naill ai ar-lein drwy'r Porth Cynllunio yn www.planningportal.gov.uk neu drwy e-bost neu drwy'r post gan ddefnyddio'r ffurflenni cais perthnasol a'r cynlluniau yn uniongyrchol i'r Awdurdod. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni cais a'r nodiadau canllaw oddi ar ein gwefan:
https://www.pembrokeshirecoast.wales/planning/application-forms-and-fees/

**A allaf baratoi cais fy hun?**

Gallwch, does dim i'ch atal rhag cyflwyno cais heb gymorth allanol. Fodd bynnag, yn dibynnu ar gymhlethdod eich safle, efallai y bydd yn briodol cael swyddog cynllunio a fydd yn gweithredu fel cyfrwng rhyngoch chi a'r Awdurdod. Mae swyddogion cynllunio'n arbennig o ddefnyddiol i'r rhai sydd â gwybodaeth gyfyngedig o'r broses gynllunio, gan helpu i hwyluso penderfyniadau ynghylch y cais drwy ddeall y broses a phroblemau posibl mewn perthynas â'ch datblygiad. Y swyddog fydd eich prif gyswllt ar gyfer unrhyw gais. Er na allwn argymell asiantau neu ymgynghorwyr cynllunio penodol, gallwch ddod o hyd i restr o gwmnïau yn y sir trwy chwilio'r rhyngrwyd.

**Faint fydd cost cyflwyno cais?**

Oherwydd bod yr hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd 28 diwrnod yn cael eu dileu drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4(1), nid oes angen unrhyw ffioedd cynllunio i gyflwyno cais. Bydd yr Awdurdod hefyd yn darparu cyngor cyn-ymgeisio am ddim

**Pa mor hir fydd caniatâd cynllunio yn ei gymryd?**

Bydd yr Awdurdod yn ceisio penderfynu ar y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio o fewn y cyfnod statudol o 8 wythnos o'r dyddiad y caiff eich cais ei ddilysu. Pan fyddwn yn derbyn eich cais, byddwn yn sicrhau ei fod wedi'i gwblhau'n iawn a bod gennym yr holl fanylion angenrheidiol. Ar ôl ei dderbyn, mae wedi'i gofrestru fel cais dilys.

**A fydd ceisiadau ar gyfer safleoedd 28 diwrnod yn cael blaenoriaeth?**

I'r ymgeiswyr hynny a fydd yn awr angen caniatâd cynllunio ffurfiol o ganlyniad i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4(1), bydd gwasanaeth cais cynllunio cyflym ar gael er mwyn sicrhau bod rhoi caniatâd i safleoedd 28 diwrnod yn cael blaenoriaeth ac y delir â hwy yn brydlon Bydd y mathau canlynol o geisiadau cynllunio yn cael blaenoriaeth:

- Ceisiadau Llawn ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod
- Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon (Presennol ac a Gynigir) ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod
- Rhyddhau Amodol ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod

**Mae angen caniatâd cynllunio, beth fydd angen i mi ei gyflwyno?**

Cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio bydd angen i chi gasglu'r wybodaeth ganlynol:

- Lleoliad eich safle arfaethedig. Bydd angen dangos hyn ar fap gyda llinell goch yn nodi maint y safle ac yn cynnwys unrhyw draciau mynediad o'r briffordd gyhoeddus.
- Sut y bydd cerbydau/cerddwyr yn cael mynediad i'ch safle.
- Sawl llain rydych chi'n bwriadu eu darparu ar gyfer gwersyllwyr (sylwer mai dim ond hyd at 3 carafán deithiol, neu gartrefi modur, neu faniau gwersylla a ganiateir ar y safleoedd hyn). Bydd y nifer o bebyll arfaethedig yn dibynnu ar ardal y safle, gan ganiatáu lle ar gyfer mynediad a chynllun y llain.
- Y cyfnod yr ydych yn bwriadu gweithredu eich safle mewn un flwyddyn galendr. Nid oes rhaid i'r 28 diwrnod fod yn olynol. (Bydd cyfleusterau dros dro a leolir ar y tir megis toiledau/cawodydd yn cyfrif tuag at y cyfrif - hyd yn oed os na does gwersyllwyr ar y lleiniau.)
- Sut fyddwch yn ymdrin â gwastraff a gynhyrchir gan ymwelwyr â'r safle.
- Sut fyddwch yn ymdrin â dŵr llwyd/carthffosiaeth a gynhyrchir gan ymwelwyr â'r safle.

**Sut fydd ceisiadau ar gyfer safleoedd 28 diwrnod yn cael eu hystyried?**

Wrth ystyried cais cynllunio ar gyfer safle gwersylla 28 diwrnod, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn seilio'i benderfyniad ar y polisïau a nodir yn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12) a baratowyd gan Ddyfodol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Datblygu Lleol 2 ar gyfer y Parc Cenedlaethol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Gwersylla, Carafannau a Chabannau Gwyliau.

Bydd maint y safle a nifer y lleiniau'n cael eu hystyried fel rhan o'ch cais cynllunio. Ni chefnogir safleoedd sydd mewn lleoliadau â sensitifrwydd neu gyfyngiadau polisi penodol. Gall y rhain gynnwys tir sydd wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), neu Dir o fewn parthau 2 a 3 ar y Map Llifogydd ar gyfer Cymru. Bydd yr Awdurdod hefyd yn ymgynghori â gwahanol gyrff, awdurdodau a sefydliadau a all ddarparu cyngor arbenigol. Os bydd eich cais i weithredu safle yn llwyddiannus bydd yn cael ei roi gydag amodau. Bwriad y rhain yw sicrhau bod y safle'n cael ei weithredu yn ôl y disgwyl.

**Beth sy'n digwydd os gwrthodir fy nghaniatâd cynllunio?**

Os yw'r Awdurdod yn argymell gwrthod eich cais, neu os ydych yn anhapus ag unrhyw un o'r amodau ynghlwm, mae hawl apelio. Mae'n ofynnol i apeliadau gael eu gwneud i Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW) o fewn 6 mis i dderbyn eich hysbysiad penderfynu. Bydd PEDW yn asesu eich cais yn annibynnol i'r Awdurdod Lleol ac yn penderfynu a yw'r argymhelliad cywir wedi'i wneud. Am ragor o wybodaeth, gweler yma .

**Ble allaf i ddod o hyd i ragor o wybodaeth?**

Os oes gennych gwestiwn arall nad yw wedi cael sylw uchod, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynllunio yn:dc@pembrokeshirecoast.org.uk